# Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Pentir 2025/2026

## Trefniant Y cyngor

***Cynghorwyr***:

| | | |
|---|---|---|
| Ward Glasinfryn – | 4 Sedd | |
| | Lowri A James | Cadeirydd Pwyllgor Cyllid |
| | James Griffiths | |
| | Megan Jones | |
| | Huw Griffiths | |
| Ward Y Faenol – | 8 Sedd | |
| | Ieuan Ellis | Cadeirydd y Cyngor ac a'r y Pwyllgor Cyllid |
| | Bernard Jones | hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid |
| | R Emlyn Roberts | aelod o Grwp y Wefan |
| | Carol W Owen | Is-Gadeirydd y Cyngor aelod o Grwp y Wefan a Pwyllgor Cyllid |
| | George Owen - | |
| | Dafydd Jones-Morris | hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid |
| | Andrew Joyce | aelod o Grwp y Wefan |
| | Jean Pierce | hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid |

***Gwefan***: https://cyngorpentir.cymru/

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn naill ai Canolfan Gymunedol Penrhosgarnedd neu Canolfan Gymuned Glasinfryn. Efallai ei bod yn deg dweud mae yn ystod misoedd yr haf mae'r Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf o Canolfan Glasinfryn.
Mae'r Cyngor Llawn yn cyfarfod ar yr ail Nos Iau y Mis a'r Is-bwyllgor Cyllid yn cyfarfod yn fisol hefyd ar y Nos Fercher olaf o bob mis, ar wahân i fis Awst.
Mae cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn agored i'r cyhoedd i'w mynychu.
Cynhelir y cyfarfodydd i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg a cyfieithydd ar y pryd yn mynychu y Cyngor Llawn

## Gwybodaeth Ariannol

Praesept ariannol y Cyngor eleni eto oedd £55,000. Ar gyfartaledd mae hyn yn gost oddeutu £42+yr aelwyd i dai Band D. Mae'r Cyngor am y bedwaredd flwyddyn yn olynnol wedi cadw'r praesept ar yr un lefel sydd mewn gwirionedd oherwydd bod y nifer o aelwydydd wedi cynnyddu yn golygu gallu cadw cost ariannol i bob aelwyd yn eitha sefydlog.
Serch hynny yn nhermau 'real' ag o ystyried chwyddiant, a sefydlogrwydd adeiladu tai yn yr ardal 'roedd bellach ostyngiad ariannol blynyddol i'r Cyngor, a galw am ystyried codi y praesept ar gyfer 2026-27
Mae'r Cyngor yn derbyn archwiliad mewnol gan Gyngor Gwynedd ynghyd ac archwiliad allanol gan Swyddfa Archwylio Cymru bob blwyddyn
Gweler mantolen ariannol sydd yn dangos derbyniadau a gwariant y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf ag yn cael ei arddangos ar y Wefan ag yn ein hysbysfyrddau.

## Gweithgareddau'r Cyngor 2025-26

Cafwyd blwyddyn eitha prysur eto eleni ond braf yw gallu adrodd ein bod bellach wedi symud i'r Ganolfan newydd er nad ydi hynny wedi bod heb ei broblemau. Trwydded yn hytrach na prydles sydd wedi ei derbyn ar hyn o bryd gan y bydd cyfnod o oddetu 12 wythnos ei angen i ddymchwel yr hen ganolfan ac ymsetyn a creu maes parcio.
Oherwydd hynny mae rhai defnyddwyr, sydd yn gorfod cael lle parcio wedi gorfod unai symud i leoliad arall o'i dewis dros dro neu defnyddio ystafell yn adeilad InTec sydd wedi ei llogi i Cyngor Pentir.

Gan fod Pwyllgor Rheoli yr hen Ganolfan wedi penderfynnu nad oeddent am barhau fel corff elusennol a dim yn 'mhen telerau' y brydles newydd yn cyfeirio at sefydlu Pwyllgor rheoli ynddi mae 'Is-Grwp' wedi ei sefydlu i drafod y ffordd ymlaen

**Yr hen Ganolfan**

Mae prydles yr adeilad yma wedi dod i ben diwedd Ionawr ond yn dal i sefyll

**Caonolfan Glasinfryn**

Mae gweithgareddau yn parhau i gael eu cynnal yn y ganolfan ar sustem 'loop' osodwyd yna llynedd wedi cael croeso a'r Pwyllgor bellach yn edrych at gael Wifi i mewn gyda'r gobaith byddai hynny yn denu mwy o ddefnyddwyr

Mae peth trafferthion o ddwr yn dod lawr i'r nenfwd wedi parhau ag wedi cael sylw pellach Prynwyd sustem twymo dwr newydd i'r gegin a cafwyd trefn ar y coed tu allan gan dorri rhai yn gyfan gwbl rhagofn difrod allai ddigwydd

**Capel y Fynwent**

Eleni cyfleustera cegin osodwyd yn y Capel a cafwyd Cwmni proffesiynnol i llnau yr adeilad

Y camau nesaf fydd cael cadeiriau sydd posib eu stacio ar eu gilydd a chychwyn ymholiadau ar gyfer cael toiledau wrth y lleoliad.

**Cae chwarae Caerhun**

Mae gan y Cyngor brydles hefo Adra am gae chwarae Caerhun ac yn sgil hynny mae yn derbyn adroddiad archwyliad flynyddol gan PoSPA.

Atgyweirwyd y lloriau diogelwch 2 flynedd yn ol yn ogystal a newid 'shackles' y cadwyni Eleni eto felly gwaith cynnal a chadw yn unig fuodd ymlaen hefo'r glaswellt yn cael ei dorri yn rheolaidd

**Goleuadau Nadolig**

Cafwyd coed Nadolig ar Sgwar Pentir ag yn Treborth eto eleni a gosodwyd 6 o oleuadau Nadolig ychwanegol ar Ffordd Penrhos yn dod ar cyfanswm i 18,

Fe gawson groeso mawr gan y cyhoedd a bwriedir ychwanegu atynt Dolig 2026

**Dyletswyddau arferol**

Yn ogystal ar uchod rhaid hefyd oedd parhau hefo dyletswyddau arferol y Cyngor a'r mwyaf o rheini o bosib ydi sicrhau fod y ddwy fynwent yn cael eu cadw mewn trefn ac y ddiogel i ymwelwyr ac yn ystod angladdau.

Mae'n ddyletswydd hefyd i sicrhau fod cyflwr y Llwybrau yn dderbynniol, a bod ein Cysgodfannau Bws yn lan a diogel,

Mae gan y Cyngor erbyn hyn rwydwaith o beiriannau Diffibrylion ledled y Gymuned a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau eu bod yn barod i weithio tae argyfwng yn codi

Yn fisol bydd y Cyngor yn ystyried, a mynegu barn, ar unrhyw gais cynllunio o fewn ei ardal

Caniatawyd cais eleni i osod 'storfa drydan' i Lightsource SPV 191 Limited ger Is-Orsaf drydan Pentir a derbynnwyd 'Gweithred budd Cymunedol' am £28.5K pan ddaw y gwaith yn weithredol yn 2027.

Mae'n ddyletswydd arnom i ddwyn i sylw Cyngor Gwynedd unrhyw ddatblygiad sy'n cael ei ystyried yn ddatblygiad heb ganiatad neu ddiffygion, neu faterion sy'n achos rhwystr yn yr ardal. Yn anffodus er ein ymdrechion i ddwyn sylw at ddatblygiadau 'anghyfreithiol' mae'r ymatebion yn siomedig a dweud y lleia

Cyngor Gwynedd sy a chyfrifoldeb am y Biniau Halen yn ogystal a'r meysydd chwarae yn Glasinfryn a Phenrhos

Mae'r fynwent a Cae chwarae Caerhun yn cael eu toriad cyntaf ddiwedd Mawrth a wedyn ddwywaith y mis yn ystod tymor tyfu sydd bellach yn ymestyn i ddechrau Tachwedd.

Mae Cyngor Pentir yn talu i Cyngor Gwynedd am dorriada ychwanegol i dorriadau arefrol y Cyngor Sir

Yn arferol mae'r llwybrau yn cael eu torri ddwywaith y flwyddyn

Cafodd ein cysgodfannau bws eu golchi yn drwyadl gan gwmni lleol sydd hefyd yn fodlon bod ar gael tae angen ar frys i fynd i llnau unrhyw un ohonynt

Mae'r rhwydwaith o focsus blodau yn cael eu trin – uwchraddio a'i dyfrio yn reolaidd gan gontractwr lleol hefyd.
Fel estyniad i'r cynllun blodau mewn bocsus mae y Cyngor hefyd mewn cyd-weithrediad a grwp o bobl leol a Cyngor Gwynedd yn ymdechu i sefydlu llecynnau o flodau gwyllt yn ardal Pentir/Rhydygroes ond rhaid cydnabod am ba bynnag reswm nad yw'r fenter yma wedi bod yn or-flodeuog a felly lle i wella
Ymhellach i hynny gwnaethpwyd cais am grant ar gyfer sefydlu Dol Flodau gwyllt mewn rhan o'r fynwent na ellir claddu ynddo. Yn anffodus ni fu posib cychwyn y cynllun oherwydd y tywydd yn bennaf ond hefyd prinder amser gan fod rhaid gorffen y prosicet erbyn diwedd Ionawr.
Elfen arall o'r un grant oedd comisiynnu arlunydd i greu murlynniau ar gyfer ein tair Canolfan ag fe gynlawnwyd yr elfen honno

Yn ogystal a'r Wefan fel cyfrwng rhannu gwybodaeth mae gan y Cyngor hefyd daflen gweplyfr a hysbysfyrddau yn Pentir, Mynwent Pentir Glasinfryn, Caerhun, Treborth a Penrhos ble gellir hysbysebu materion y Cyngor a disgwyddiadau lleol.

Yn hanesyddol, mae'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu'n ariannol tuag at fudiadau lleol rhan amlaf ond wedi cyfrannu hefyd at elusennau rhanbarthol/cenedlaethol os ydi trigolion yr ardal wedi gallu elwa o fodolaeth yr elusennau hynny.

Mae ffurflenni cais ar wefan y Cyngor a'r oll sydd ei angen yw cwblhau y ffurflen ac ychwanegu mantolen ariannol gyfredol wedi ei archwylio.

**Amcanion Y Cyngor am 2026/2027**

Yn ychwanegol i'r gwaith arferol bydd Cyngor Pentir yn ymdrechu i ymestyn y cynlluniau isod ymlaen yn ystod 2026/2027

!. Mae'r Cyngor yn awyddus iawn i gael y Ganolfan newydd yn ganolbwynt gweithgareddau ardal Penrhosgarnedd ai marchnata i fwy o ddefnyddwyr yn ogystal a chroeswy y defnyddwyr sydd wedi gorfod ymgartrefu dros dro mewn lleoliadau eraill

2. Gwella adnoddau o fewn y ganolfan fel bod posib ymuno a chyfarfodydd y Cyngor yn rhithiol

3. Parhau gyda'r broses o wella y cyfleustera o fewn Capel y fynwent

4. Drwy gyd-weithredu hefo Cyngor Gwynedd sicrhau fod croesfannau diogel addas a priodol ar hyd Ffordd Penrhos yn sgil eu ymrwymiad i sicrhau llwybr llesiant ar ei hyd erbyn diwedd 2026

Parhau i arddangos ein cofnodion yn ddwyieithog ar ein gwefan.

Mawrth 2026